**EITEM AGENDA:10**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**20 Hydref 2008**

# FFIGURAU TERFYNOL DROS DRO 2008-2009

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd**

## Pwrpas yr Adroddiad

**1.** Pwrpas yr adroddiad yw rhoi amcangyfrif i Aelodau o'r ffigurau terfynol dros dro ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-2009.

## Cyflwyniad

**2.** Caiff gwariant yn erbyn y gyllideb ei fonitro'n agos gan staff y Gwasanaeth Tân ac Achub a thynnir sylw at unrhyw amrywiadau neu amrywiadau disgwyliedig mor fuan â phosibl fel bod modd sefydlu mesurau er mwyn sicrhau nad oes unrhyw risg ariannol i'r Awdurdod. Ar hyn o bryd mae'n ymddangos y bydd tanwariant bychan o £23,118. Mae dadansoddiad manwl yn Atodiad A, a dangosir unrhyw danwariant ag arwydd minws (-).

## Amrywiadau i'r Gyllideb

**3.(a)** Mae cyfran fawr o wariant y Gwasanaeth Tân ac Achub ar dâl ac mae'n ymddangos y bydd tanwariant net ar dâl. Mae'r tanwariant ar ymladdwyr tân llawn amser yn bennaf yn sgil trosglwyddo rhai swyddi o fod yn staff gweithredol i staff cefnogi, a'r gorwariant yn sgil hynny i staff cefnogi, a'r oedi rhwng y cyfnod y mae swydd yn wag a phan lenwir hi. Bydd Aelodau'n gwerthfawrogi pe bai'r cyllidebau gwreiddiol yn cael eu haddasu i adlewyrchu trosglwyddo gwariant yna byddai'r darlun ariannol yn wahanol.

**(b)** Gellir egluro'r tanwariant ar ymladdwyr tân wrth gefn yn bennaf oherwydd lefel isel gweithgaredd yn ystod misoedd yr haf ac o ganlyniad mae'r ffioedd ar gyfer delio â digwyddiadau yn llai na'r hyn ar ei gyfer yn y gyllideb.

**4.** Mae'r gorwariant ar hysbysebu oherwydd ymgyrch recriwtio ymladdwyr tân llawn amser.

**5.** Adleolwyd y stafell Reoli i adeiladau newydd yn Llanelwy ddechrau fis Hydref ac mae'r costau ychwanegol am ran o'r flwyddyn bellach wedi eu cynnwys.

**6.** O dan y pennawd Cludiant mae'r cynnydd mewn deunydd o danwydd wedi'i osod yn rhannol yn erbyn arbedion ar gostau rhedeg eraill, sef yswiriant cerbydau. Yn gyffredinol, mae'r gorwariant a amcangyfrifir ar gostau cludiant wedi eu gosod yn erbyn arbedion eraill yn y gyllideb.

**7.** O dan y pennawd Cyflenwadau a Gwasanaethau bydd y prif faes tanwariant ar gostau Cyfrifiadurol yn sgil cynnydd mewn costau trwyddedu, uwchraddio'r rhwydwaith a gwaith datblygu ar nifer o systemau, yn arbennig y system newydd ar gyfer mewngofnodi archwiliadau diogelwch tân yn y cartref. Unwaith eto, bydd y gorwariant ar Gyflenwadau a Gwasanaethau yn cael ei osod yn erbyn arbedion eraill yn y gyllideb .

**8.** Er mwyn ychwanegu at sgiliau mewnol defnyddiwyd gweithwyr proffesiynol allanol i gynorthwyo'r gwasanaeth mewn nifer o feysydd, yn bennaf yn ymwneud â gweithwyr, pan fo angen cael cyngor ar faterion cyfreithiol cymhleth. Yn anffodus ni ellir osgoi'r costau hyn ac amcangyfrifir y bydd gorwariant o dan y pennawd hwn yn y gyllideb.

**9.** Ni fydd yr incwm ychwanegol a amcangyfrifid yn sgil llog ar gael oherwydd sefyllfa fregus bresennol y marchnadoedd arian. Fodd bynnag, mae hyn wedi ei osod yn erbyn arbedion

ar Arian Cyfalaf oherwydd llithriant ar y rhaglen gyfalaf yn 2007/2008. Dim ond mewn Sefydliadau Prydeinig a Gwyddelig y mae'r NWFRA yn buddsoddi - mae gwybodaeth bellach am hyn yn adroddiad Rheoli'r Trysorlys mewn rhan arall o'r rhaglen hon.

**10.** Yn gyffredinol mae'r amcangyfrif o'r ffigurau terfynol ar gyfer incwm yn uwch yn sgil ad-dalu costau gan y Cynulliad am brosiectau arbennig. Disgwylir i incwm buddsoddi fod yn llai na'r hyn a bennwyd yn y gyllideb yn sgil y gostyngiad yn lefel darpariaethau gan yr Awdurdod a thaliad hwyr y Grant Atodol Pensiynau gan LlCC. Mae swyddogion mewn cysylltiad â LlCC ynghylch y llog ar y taliad hwyr o'r Grant Atodol.

**11.** Ar hyn o bryd amcangyfrifir mai'r tanwariant cyffredinol yw £23,118 ond gan fod chwe mis arall o'r flwyddyn ariannol ar ôl, gallai'r sefyllfa newid os bydd nifer y digwyddiadau'n cynyddu yn ystod y gaeaf. Felly ar hyn o bryd argymhellir bod Aelodau ond yn nodi'r amcangyfrif o'r tanwariant.

**ARGYMHELLIAD**

**12.** Bod Aelodau'n nodi'r amcangyfrif o'r tanwariant.